COFNODION CYFARFOD PARTNERIAETH TENANTIAID AC AELODAU WRECSAM A GYNHALIWYD YN NEUADD Y DREF, WRECSAM DDYDD GWENER, 28 GORFFENNAF 2006

AELODAU

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Y Cynghorydd		A.C. Bailey	Y Cynghorydd	*	R. Alun Jenkins
"	*	Nick Colbourne	"		Mrs. Gwyneth Roberts
"	*	Gerry M. Craddock	"	*	Philip Michael Shone
"		K.H. Hett	"	*	J.R. Skelland
"		P. Jeffares	"		Malcolm Williams

Yn cynrychioli Tenantiaid Wrecsam

Miss Natasha Hill	Mr Graham Rowlands
*Ms Wendy Loton	Mr Joe Skerrith
*Ms Dorothy Mitchell	Mr Brian Stapley
Mr Eric Moore	*Mrs Chris Thomas
Mr Dave Rimmer	

*Absennol

Hefyd yn bresennol – Charles Randle Lloyd, Barbara Roxburgh.

1 Diolch

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a'r tenantiaid am eu hyblygrwydd mewn perthynas â newid amser y cyfarfod heddiw.

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Gerry M. Craddock, R. Alun Jenkins a J.R Skelland a Mrs Chris Thomas.

3 Aelodau

Rhoddodd Mr Fred Czulowski, Rheolwr Gwasanaethau Landlordiaid, ddiweddariad i'r bartneriaeth am newidiadau i'r aelodau mewn perthynas â chynrychiolwyr tenantiaid. Nododd yr aelodau:-

- Fod Charles Randle Lloyd, a oedd yn aelod dirprwyol yn flaenorol, bellach yn aelod llawn o'r bartneriaeth.
- Nad yw Wendy Loton bellach yn aelod.
- Bod swydd wag felly ar gyfer cynrychiolydd o Ffederasiwn y Tenantiaid, a gofynnwyd iddynt enwebu cynrychiolydd.

4 Cofnodion

CYTUNWYD – Bydd cofnodion cyfarfod Partneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wrecsam a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2006 yn cael eu derbyn a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

5 Perfformiad yr Adran Tai yn gyffredinol

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Landlordiaid adroddiad (CHPPO/90/06) i roi gwybod i aelodau'r bartneriaeth am berfformiad cyffredinol y gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaethau Landlordiaid fel a ganlyn:-

- Casglu refeniw – Mae'r ôl-ddyledion rhent yn sylweddol is nag y llynedd. Fodd bynnag, mae ôl-ddyledion cyn denantiaid yn uchel ac mae hon yn flaenoriaeth ar gyfer 2006/07.

- Eiddo gwag ac ailosodiadau – Mae cyfanswm y tai gwag yn lleihau a disgwylir i'r cyfanswm barhau i ddisgyn trwy gydol y flwyddyn. Gwelwyd gwelliant hefyd yn yr amser y mae'n ei gymryd i ailosod tai. Mae cynlluniau ar waith erbyn hyn ar gyfer unrhyw dai gwag sy'n wag am fwy na 52 wythnos.

- Cofrestr tai a gosodiadau – Ar ddiwedd mis Mehefin 2006 roedd 3077 o ymgeiswyr ar y gofrestr tai. Gwnaed 246 o ddyraniadau rhwng mis Ebrill a Mehefin 2006.

- Atgyweiriadau - Erbyn hyn, mae gwybodaeth yn cael ei chyflwyno ar ffurf nifer y diwrnodau calendr y mae'n ei gymryd ar gyfartaledd i gwblhau pob blaenoriaeth, yn unol â dangosyddion cenedlaethol. Mae'r ffigurau'n awgrymu bod yr amseroedd ymateb yn gwella ym mhob ardal ac yn debygol o gyrraedd y targedau trwy gydol y flwyddyn. Adroddwyd bod 43 o apwyntiadau Blaenoriaeth 3 wedi'u methu yn ystod cyfnod yr adroddiad ac mae angen gwella hyn. Gofynnodd yr aelodau am ddadansoddiad yn y dyfodol o'r rhesymau dros fethu apwyntiadau. Bu i'r aelodau longyfarch y swyddogion ar wella'r amser y mae'n ei gymryd i gwblhau tasgau sydd â blaenoriaeth, yn enwedig tasgau Blaenoriaeth 3.

- Hawl i Brynu/Tai a werthwyd – Cyflwynwyd 105 o geisiadau Hawl i Brynu yn ystod cyfnod yr adroddiad a chwblhawyd 32 o werthiannau.

- Materion yn ymwneud â gorfodi tenantiaethau – Darparwyd manylion y camau gweithredu a gymerwyd. Awgrymwyd y gellid archwilio gorfodaeth tenantiaethau'n fanylach yn y dyfodol.

- Gwybodaeth am absenoldebau salwch – Yn ystod cyfnod yr adroddiad, roedd lefel yr absenoldebau salwch ymysg crefftwr/staff gwaith llaw wedi cynyddu i 9.13%. Bydd camau gweithredu pellach yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem hon. Gofynnodd yr aelodau am i graffiau manylach gael eu cynnwys yn yr adroddiadau perfformiad yn y dyfodol.

CYTUNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

6 Diweddariad cynnydd ar gyfer 2005 gan Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Wrecsam

Croesawodd y Cadeirydd Barbara Roxburgh, Gweithiwr Cefnogi Tenantiaid Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Wrecsam, i'r cyfarfod. Cyflwynodd adroddiad i roi'r newyddion diweddaraf i'r aelodau am waith y Ffederasiwn yn ystod 2005/06, gan amlygu'r canlynol:-

- Roedd diddordeb mewn materion tenantiaid wedi cynyddu.
- Manylion am weithgareddau grwpiau tenantiaid yn Wrecsam.
- Mae'r Ffederasiwn yn cynhyrchu newyddlen bob tri mis. Cynigiwyd defnyddio newyddlenni a gwefannau cymunedol eraill yn y dyfodol hefyd.

Mynegodd yr aelodau eu cefnogaeth i waith y Ffederasiwn. Awgrymodd Mr Fred Czulowski efallai y byddai gan y bartneriaeth ddiddordeb mewn cael diweddariadau rheolaidd am waith y Ffederasiwn ac y bydd manylion cyfarfodydd y bartneriaeth yn y dyfodol yn cael eu rhoi i Mrs Roxburgh.

CYTUNWYD – Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

7 Cyflwyniad am y Cynllun Atgyweirio Tai

Rhoddodd Paul Allen, Rheolwr Eiddo ac Atgyweiriadau, gyflwyniad am y tîm atgyweiriadau mewnol sy'n ymdrin ag atgyweiriadau ymatebol, eiddo gwag a gwaith cynlluniedig. Roedd y cyflwyniad yn amlygu:-

- y strwythur gweithredol
- adnoddau atgyweirio tai
- y llwyth gwaith cynlluniedig ar gyfer 2005/06 – gofynnodd yr aelodau am fwy o fanylion am gwblhad y rhaglen amnewid drysau
- y broses atgyweirio – dulliau ar gyfer rhoi gwybod am atgyweiriadau
- dyletswyddau bob tîm
- meysydd i'w gwella, a oedd yn cynnwys gwasanaeth mwy effeithiol i gwsmeriaid, gwella arferion a gweithdrefnau, lleihau nifer yr apwyntiadau sy'n cael eu methu, archwiliadau ar ôl cwblhau'r gwaith a'r amser y mae'n ei gymryd i baratoi tai gwag

Yn ystod y drafodaeth, gofynnodd Aelodau a thenantiaid gwestiynau i'r Swyddog gan amlygu'r materion canlynol:-

- Archwiliadau cyn cwblhau'r gwaith – roedd gormod o archwiliadau yn y gorffennol.
- Y manteision o wella technoleg, megis cyswllt radio byw i'r crefftwyr.
- Gwaith cynlluniedig – wrth ymateb i gwestiwn am dalcenni tai, cadarnhaodd y Swyddog fod copi o'r rhaglen waith yn cael ei arddangos mewn swyddfeydd tai a dylai copi fod wedi'i anfon at Aelodau.
- Manteision ffensys haearn gyr mewn mannau agored.

Yn ogystal â'r uchod, er nad yw'n rhan o'r gwasanaeth atgyweiriadau, soniodd yr Aelodau am safon ardderchog y gwaith a gwblhawyd yng Nghwrt Brenhinol a Moorlands a bod y gwaith hwn yn enghraifft o'r hyn y gellir ei gyflawni.

CYTUNWYD – Bod y wybodaeth yn yr adroddiad yn cael ei nodi a bod y wybodaeth ganlynol am y rhaglen amnewid drysau'n cael ei chyflwyno yng nghyfarfod nesaf y bartneriaeth:

- **cyfanswm y drysau a osodwyd hyd yma**
- **dadansoddiad yn ôl ardal**
- **rhaglen waith y dyfodol**

8 Gosod drysau PVCu

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Landlordiaid adroddiad (CHPPO/91/06) yn cyflwyno gwybodaeth i Bartneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wrecsam am led agoriadau drysau a materion cysylltiedig sy'n ymwneud â drysau PVCu.

Roedd y mater wedi'i ystyried yn flaenorol gan y Pwyllgor Archwilio Materion Cymdeithasol, Iechyd a Thai yn dilyn pryderon am gulhau meintiau agoriadau drysau o ganlyniad i osod drysau PVCu, gan gyfyngu ar fynediad i bobl anabl ac i offer domestig mawr.

Adroddwyd mai'r bwriad yw defnyddio fframiau mwy cul yn y dyfodol a fyddai'n lleihau'r problemau hygyrchedd, ond yn gyffredinol bydd drysau PVCu yn parhau i leihau hygyrchedd o'u cymharu â drysau pren.

Mewn perthynas â mynediad i bobl anabl, bydd trothwy treigl yn cael ei osod lle bynnag y bo hynny'n bosibl, yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn.

Mae'n bwysig bod tenantiaid yn gwirio hygyrchedd wrth brynu eitemau mawr ar gyfer eu cartrefi. Gallai'r Cyngor dynnu ffenestr allan lle bo hynny'n briodol, ond byddai'n rhaid i'r tenant dalu am hyn. Yn ystod y drafodaeth, pwysleisiodd yr Aelodau a'r tenantiaid yr angen i swyddogion sicrhau bod tenantiaid yn ymwybodol o'r dimensiynau llai wrth i ddrysau PVCu gael eu gosod.

9 <u>Unrhyw fater arall</u>

(i) <u>Cydgyfarfod</u>

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am wahoddiad gan y Pwyllgor Archwilio Materion Cymdeithasol, Iechyd a Thai i gynnal cydgyfarfod â'r bartneriaeth ddydd Mercher, 13 Medi 2006 am 3.00pm yn Neuadd y Dref.

Cadarnhawyd bod y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd eraill y bartneriaeth fel a ganlyn:-

Dydd Gwener, 27 Hydref 2006 am 10.00am
Dydd Mercher, 6 Rhagfyr 2006 am 2.00pm
Dydd Gwener, 26 Ionawr 2007 am 10.00am

(ii) <u>Polisi Di-fwg y Cyngor</u>

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r bartneriaeth am Bolisi Di-fwg y Cyngor a ddaw i rym ar draws y fwrdeistref sirol yn y dyfodol agos. Bydd y polisi'n berthnasol i staff, Aelodau Etholedig, y cyhoedd sy'n ymweld ag adeiladau'r Cyngor a chontractwyr a gyflogir gan y Cyngor.

Y Cynghorydd A.C. Bailey
Cadeirydd